OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2004 Rhif 1488 (Cy.153) (C.58)

DIOGELU'R AMGYLCHEDD, CYMRU

Gorchymyn Deddf Gwastraff a Masnachu Allyriannau 2003 (Cychwyn) (Cymru) 2004

Wedi'i wneud - - 8 Mehefin 2004

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adran 40 o Ddeddf Gwastraff a Masnachu Allyriannau 2003(**1**), yn gwneud y Gorchymyn canlynol:

Enwi

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Deddf Gwastraff a Masnachu Allyriannau 2003 (Cychwyn) (Cymru) 2004.

Cychwyn

2.—(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (2) daw adrannau 4, 5, 9, 10, 19 a 35(a) ac (c) o Ddeddf Masnachu Gwastraff ac Allyriannau 2003 i rym ar 25 Mehefin 2004.

(2) Mae adrannau 4, 5, 9, 10 a 35(a) yn cael eu dwyn i rym mewn perthynas â Chymru(**2**).

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**3**).

D. Elis-Thomas
8 Mehefin 2004 Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

(**1**) 2003 p.33.
(**2**) Mae adrannau 19 a 35(c) yn ymwneud â Chymru yn unig.
(**3**) 1998 p.38.